YSGOL GYFUN GWENT IS COED

Ffordd Dyffryn, Dyffryn, Casnewydd, NP10 8BX

☎ 01633 851614

✉ gwent.iscoed@newport.gov.uk

www.gwentiscoed.cymru

Pennaeth: Eirian Jones

6-09-24

Prynhawn da,

mae wedi bod yn hyfryd croesawu ein dysgwyr yn ôl wythnos yma ar ôl y gwyliau ac i ddod i adnabod ein dysgwyr newydd ym mlwyddyn 7. Rydym wedi cael wythnos lwyddiannus iawn er gwaethaf y tywydd gwael!!

Hoffwn fanteisio ar y cyfle yma i'ch atgoffa am ddyddiadau pwysig y flwyddyn a rhai elfennau o drefniadaeth yr ysgol.

Dyddiadau pwysig

9/10/24 – noson rhieni blwyddyn 7 (bugeiliol)

6/11/24 – noson rhieni blwyddyn 9

11/12/24 – noson rhieni blwyddyn 10

22/01/25 – noson rhieni blwyddyn 11

5/02/25 – noson opsiynau blwyddyn 11

12/03/25 – noson rhieni bl 12 ac 13

20/03/25 – noson adolygu bl 10 ac 11 (rhithiwr)

26/03/25 - noson opsiynau blwyddyn 9

30/04/25 – noson rhieni bl8

11/06/25 – noson rhieni bl7

25/06/25 – diwrnod a noson pontio bl6

3/07/25 - noson pontio blwyddyn 5

Diwrnodau HMS

2/09/24

25/11/24

21/02/25

3/03/25

27/06/25

21/07/25

Gwisg ysgol

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr wedi dychwelyd yn gwisgo'r wisg ysgol gywir sy'n hanfodol er mwyn bod pob unigolyn yn teimlo'n rhan lawn o gymuned yr ysgol. Mae cyflwyniad yn y ddolen yma sy'n amlinellu disgwyliadau'r wisg ysgol Gwisg Ysgol 2023-2024 School Uniform.pptx. Byddem yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth i sicrhau bod ein holl ddysgwyr yn cadw at y wisg gywir gan gynnwys esgidiau/"trainers" du yn unig (nid Converse du a gwyn).

Oes modd sicrhau eich bod yn rhoi enwau eich plant ar eu dillad os gwelwch yn dda. Mae'r swyddfa yn derbyn llawer iawn o eitemau o wisg ysgol yn ddyddiol o ran eiddo coll, ac mae'n anodd iawn gwybod dillad pwy ydynt.

Bydd dysgwyr yn parhau i ddod i'r ysgol yn eu gwisg addysg gorfforol, **os oes gwers yn y pwnc ar y diwrnod yna**, nes fydd y Neuadd Chwaraeon newydd yn barod.

Rydym yn gofyn i chi beidio â gadael i'ch plentyn ddod i'r ysgol yn gwisgo llawer o golur neu gyda lliw gwallt annaturiol. Caniateir i ddysgwyr wisgo un clustlws bychan ym mhob clust yn unig. Nid ydym yn caniatáu farnais ewinedd lliw llachar na rhai ffug am resymau iechyd a diogelwch. Diolch am eich cydweithrediad gyda hyn.

Bydd y siop wisg ar agor ar **ddydd Mawrth yr 17eg o Fedi** rhwng 9am a 5pm. Croeso i bawb ddod i fewn ar y diwrnod yna. Rydym yn parhau i dderbyn unrhyw roddion o ran gwisgoedd sydd wedi mynd yn rhy fach.

Offer

Disgwylir i ddysgwyr ddod ag offer ysgrifennu priodol i'r ysgol a dylai eu cas pensiliau gynnwys: beiros du/glas, beiro goch, pensil, pren mesur a rwber. Nid oes caniatâd i ddysgwyr ddod a "tipp-ex".

Dylai dysgwyr hefyd ddod â photel ddŵr i'r ysgol.

Maes parcio

Os ydych yn gollwng eich plant yn y car yn y bore, a fyddech cystal â sicrhau eich bod yn parcio yn y mannau parcio yng nghanol y maes parcio os gwelwch yn dda. Mae sawl safle gwag ar gael a gall eich plant wedyn gerdded ar hyd y palmant yn y canol yn ddiogel. Mae'n dywyll iawn yn y bore a diogelwch ein dysgwyr yw ein blaenoriaeth. Hefyd, yn y prynhawn, a fyddech cystal â pheidio mynd mewn i'r maes parcio nes **ar ôl 3pm** pan fydd y bysiau wedi gadael y safle os gwelwch yn dda.

Ffonau symudol

Hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth wrth i ni barhau i weithredu ein polisi ffonau symudol. Nid oes hawl gan ddysgwyr ddefnyddio eu ffonau o gwbwl yn ystod y diwrnod ysgol a dylsai fod yn eu bagiau ar bob achlysur. Os ydynt angen ffonio gallent ddod i ofyn am ganiatad gan aelod o staff. Os yw dysgwr yn gwrthod cydymffurfio rydym yn cadw'r ffôn yn y swyddfa nes ddiwedd y dydd.

System biometrig y ffreutur

O wythnos yma ymlaen bydd y ffreutur yn defnyddio technoleg adnabod wynebau i gael mynediad at gyfrifon Parentpay plant i dalu am fwyd. Bydd hyn yn gyflymach na'r system gardiau a bydd mwy o blant yn cael eu bwydo mewn cyfnod byrrach o amser. Rwyf wedi atodi llythyr yn egluro'r system fiometrig mewn mwy o fanylder.

Os ydych yn rhoi caniatâd i'ch plentyn ddefnyddio technoleg adnabod wynebau a fyddech cystal â llenwi'r slip ar waelod y llythyr a'i ddychwelyd i'r ysgol neu ddanfon eich caniatad i ebost yr ysgol.

Diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus wrth edrych ymlaen at flwyddyn lwyddiannus arall.

Cofion cynnes,

Pennaeth

Good afternoon,

It has been lovely to welcome our learners back this week after the holidays and to get to know our new learners in year 7. We have had a very successful week despite the bad weather!!

I would like to take this opportunity to remind you about the important dates for this year and some other school arrangements.

Important dates

9/10/24 – year 7 parents' evening (pastoral)

6/11/24 – year 9 parents' evening

11/12/24 – year 10 parents' evening

22/01/25 – year 11 parents' evening

5/02/25 – year 11 options evening

12/03/25 – years 12 and 13 parents' evening

20/03/25 – years 10 and 11 revision evening (virtual)

26/03/25 - year 9 options evening

30/04/25 – year 8 parents' evening

11/06/25 – year 7 parents' evening

25/06/25 – year 6 transition day and evening

3/07/25 - year 5 parents' evening

INSET days

2/09/24

25/11/24

21/02/25

3/03/25

27/06/25

21/07/25

School uniform

Most learners have returned wearing the correct school uniform which is essential so that each individual feels part of the school community. There is a presentation in this link that outlines our expectations as regards the school uniform Gwisg Ysgol 2023-2024 School Uniform.pptx We would appreciate your support to ensure that all our learners adhere to the correct uniform including black shoes/"trainers" only (not black and white Converse).

Could you please ensure that you put your children's names on their clothes. The office receives a large amount of clothing in lost property on a daily basis and it is very difficult to know whose clothes they are.

Learners will continue to come to school in their physical education uniform, **if there is a lesson in the subject on that day,** until the new Sports Hall is ready.

We ask that you don't let your child come to school wearing a lot of make -up or with unnatural hair colour. Learners are allowed to wear one small earring in each ear only. We do not allow bright coloured nail varnish or fake nails for health and safety reasons. Thank you for your cooperation with this.

The school uniform shop will be open on **Tuesday 17th September** between 9am and 5pm. Everyone is welcome to come in on that day. We continue to accept any donations of clothing that have become too small.

Equipment

Learners are expected to bring appropriate stationery equipment to school and their pencil cases should include: black/blue pens, red pen, pencil, ruler and rubber. Learners are not allowed to bring "Tipp-Ex".

Learners should also bring a water bottle to school.

Car park

If you're dropping your children off by car in the morning could you please ensure that you park in the parking bays in the middle of the car park. There are several empty bays available and your children can then walk along the middle pavement safely. It's very dark in the morning and the safety of our learners is our priority. Also, in the afternoon, could you please enter the car park **after 3pm** when the buses have left the site.

Mobile phones

I would like to thank you for your support as we continue to implement our mobile phone policy. Learners are not allowed to use their phones at all during the school day and they should be in their bags at all times. If they need to call they can ask for permission from a member of staff. If a learner refuses to comply with this policy we will keep the phone in the office until the end of the day.

Canteen biometric system

From this week onwards the canteen will use facial recognition technology to access children's Parentpay accounts to pay for food. This will be faster than the card system and more children will be fed in a shorter period of time. I have attached a letter explaining the biometric system in more detail.

If you give your child permission to use facial recognition technology, please fill in the slip at the bottom of the letter and return it to the school or send your permission to the school's email address.

Thank you for your continued support as we look forward to another successful year.

Kind regards,

Headteacher